ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 4 Cyfrol 9 Hydref 2012

GWEINIDOG: Y PARCHEDIG ERIC JONES BD
Gwernyfed, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2DZ Ffôn 01248 362127
e-bost: ericaval@btinternet.com

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

APÊL EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

Tybed faint o arian a ddaw o ymdrech y plant a gafodd £1 yr un gan yr Ysgol Sul? Yr her i'r plant yw defnyddio'r £1 er mwyn gwneud mwy o bunnoedd. Byddant yn dod â'u hymdrechion ar y Sul cyntaf o Dachwedd pan fydd Anna Jane Evans o Cymorth Cristnogol yn eu derbyn ganddynt. HWYL I CHI BLANT !

BOED I NI OLL WNEUD EIN GORAU.

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
11.00: YSGOL SUL YR OEDOLION **5.30:** OEDFA'R NOS

21 Hydref	Y Gweinidog	
28 Hydref	Pryderi Ll. Jones	
4 Tachwedd	Y Gweinidog	Cymun (Bore)
11 Tachwedd		
18 Tachwedd	Y Gweinidog	
25 Tachwedd	Y Parch Athro G.H.Jones (Bore) Uno Pendref (Hwyr)	
2 Rhagfyr	Y Gweinidog	Cymun (Hwyr)
9 Rhagfyr	Y Parch John Roberts (Hwyr)	
16 Rhagfyr	Y Gweinidog	
23 Rhagfyr	Y Parch Ddr. Elwyn Richards	
30 Rhagfyr		

DYLETSWYDDAU

Dyddiad	**Llywydd y Pythefnos**	
21+28 Hydref	Eirian Howells	
4+11 Tachwedd	Cynthia Owen	Cymun (Bore)
18+25 Tachwedd	Maldwyn Thomas	
2+9 Rhagfyr	Gwilym Roberts	Cymun (Hwyr)
16+23 Rhagfyr	John M. Griffith	
30 Rhagfyr	Robat Roberts	
6 Ionawr 2013	Robat Roberts	Cymun (Bore)

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

21 Hydref	Menai Williams
28 Hydref	Bethan Whitall
4 Tachwedd	Griff Jones
11Tachwedd	Sara Tudor
18 Tachwedd	Morfudd Roberts
25 Tachwedd	Ann Roberts, Bryn Adda
2 Rhagfyr	Eirian Howells
9 Rhagfyr	Gwen Hughes
16 Rhagfyr	Enid Roberts, Bryn Dedwydd
23 Rhagfyr	Liz Roberts
30 Rhagfyr	Iorwerth Morris

Byddai'r Gofalwyr yn falch o dderbyn y blodau ar ddydd Gwener os yn bosibl, neu cysyllter â hwy ar 364094 i wneud trefniadau gwahanol.

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Sut wyliau a gawsoch oedd y cwestiwn a ofynnwyd imi gan ambell un. "Pa flwyddyn yr ydych yn cyfeirio ati?" oedd fy ateb innau! Na, ni chafwyd amser i wyliau eleni. Bu Awst, fel gweddill y flwyddyn, yn brysur iawn, a bu'n fis gofidus i ni fel teulu. Diolch o galon i'r llu ohonoch a ddangosodd eich cydymdeimlad â ni, wedi i Val golli ei hannwyl frawd.

Bu colledion yn ein mysg fel eglwys hefyd, sef Mrs Buddug Budd, Mrs Eirwen Samuel, a Mrs Ceinwen Edwards. Ond o drugaredd cawsom hefyd y fraint o groesawu pump o bobl ifanc yn gyflawn aelodau, sef Sara, Menna, Anna, Glesni a Gwion. Boed iddyn nhw ddilyn esiampl dda y rhai a gollwyd, mewn ffydd a ffyddlondeb.

Colled arall i ni fel eglwys oedd colli Aled Ifan, wedi bron i bum mlynedd o wasanaeth yn ein plith. Wrth ddiolch iddo'n ddiffuant am ei holl waith, dymunwn bob bendith hefyd i Delyth Wyn Davies, sydd yn llenwi'r blwch am o leiaf dri mis. Cawn gyfle i ddiolch yn iawn i Aled nos Sul yr 21ain.

Sylwaf fod rhieni a phlant newydd yn ein plith ar foreau Sul. Croeso cynnes iddyn nhw. Edrychwn ymlaen at gael dod i'w hadnabod yn well. Mae'n hyfryd gweld eu bod wedi deall mai am 10 o'r gloch y mae'r Ysgol Sul yn dechrau. Ardderchog.

Edrychwn ymlaen hefyd at gael gweld nifer dda yn cael eu hordeinio'n flaenoriaid ar y 23ain o'r mis hwn. Cofiwch ddod draw i'r gwasanaeth.

Dyna golled i wrandawyr Radio Cymru oedd colli'r seiat am ugain munud wedi pedwar ar brynhawniau Sul, 'Dal i Gredu', o dan ofal Mr R. Maldwyn Thomas. Tybed a oes gan y gorfforaeth rywbeth cystal yn ei le, neu a fyddwn yn gweld seciwlareiddio pellach ar y gwasanaeth cenedlaethol? Edrychwch am y recordiad o'r rhaglenni ar wefan y BBC.

Un arall y bydd y Cyfundeb yn gweld colli ei gwasanaeth ydyw Mrs Cynthia Owen. Daeth ei thymor fel ymddiriedolwr i ben. Diolch iddi hithau am ei holl ymdrechion, a hynny ar ben yr holl waith ym Merea Newydd.

Diolch am bob ymdrech a gafwyd yn ddiweddar i godi arian at Apêl Guatemala, ond y mae llawer iawn i'w wneud yn y 10 wythnos sydd ar ôl. £1,469,75 a ddaeth i law ond y nod yw £4,140, felly mae gennym £2,671 i'w gasglu. Boed i ni oll wneud ein gorau.

Cofion caredig,
Eric Jones

Y BOBOL SY'N BYW AR YR ALLT

MAISIE AC EMYR GRIFFITHS, GALLT Y FOEL

MALDWYN THOMAS

Mae hi'n bnawn dydd Sul braf yn yr Hydref a Gallt y Foel yng ngoleuni'r haul. Lliwiau aur a choch ar y coed, a lawnt ffrynt y tŷ yn rhesi gwyrdd golau a gwyrdd tywyll am yn ail a'i gilydd. Tŷ ar ben allt ydi Gallt y Foel, tŷ wedi cael ei godi yn 1932, tŷ solet a'i ffenestri gwydr dwbwl yn golygu nad oes yna yr un smic - na sŵn y traffig o Ffordd Penrhos - i'w glywed y tu mewn i'r waliau.

Y mae'r cyfan yn gadarn, y lloriau bloc pren, y drysau cryf o goedyn golau, a'r rheilings sy'n dal platiau a llestri. *"Dydi'r tŷ ddim wedi newid dwylo yn aml, ac felly mi oedd yma lawar o waith trin pethau cyn i ni symud yma. Ac mae Emyr yn troi ei law at bob dim."*

Mae Maisie Griffiths yn sefyll o flaen ffenest fawr yn y stafell fyw, ac mae hi'n gwisgo ffrog frown reit ffurfiol, tra bo Emyr mewn crys sgwariau brown - y ddau wedi newid decini ar ôl bod yn y capel yn oedfa'r bore a'r cymun a oedd dan ofal y gweinidog. Emyr sydd ar y soffa a Maisie'n sefyll â'i chefn at olygfa godidog o fynyddoedd Eryri, efo Tryfan yn y canol, panorama ryfeddol las a gwyrdd a melyn,

GWREIDDIAU

Mae gwreiddiau y ddau ohonyn nhw yn Llŷn ac yn Eifionydd. Ond fe gafodd Emyr ei eni yn Llundain - ei fam wedi mynd yno i weini yn bedair ar ddeg oed, ac wedi cael lle ar aelwyd doctor yn Harley Street, yn alltud o bentre'r Ffôr. Mi ddaeth yr alltudiaeth i ben, a'i fam a'i dad yn dod yn ôl i Gymru ac i'r cynefin yn Chwilog, ac Emyr yn dod i fyw i Gymru am y tro cyntaf. Ac yn Eifionydd - Cricieth a'r pentrefi o gwmpas yr ardal - y dechreuodd ei dad ei fusnes gwerthu llefrith, ac Emyr efo fo ar y rownd yn reit aml. Ysgol Gynradd Chwilog ac ysgol Ramadeg Pwllheli a'r ddau Mr Hughes yn brifathrawon yn eu tro, R. E. Hughes - *"dyn arbennig iawn"* -

a'i olynydd E. R. Hughes.
Dod i fyw i Bwllheli oedd hanes Maisie, ei Mam yn Gymraes o'r dref a'i thad yn Wyddel o Belfast. Yno, yn Ulster yr oedd Maisie'n byw pan oedd hi'n hogan fach a Maisie Murphy, ei thad yn aelod o Eglwys Brotestanaidd Iwerddon a'i thaid yn perthyn i'r Urdd oren, yn gwisgo het fowler ddu ac yn gorymdeithio ar strydoedd Belfast ar yr uchel wyliau. Ac yna Maisie yn dod i Bwllheli, yn ddisgybl yn Ysgol Penlleiniau, ysgol gynradd yr Eglwys, cyn dilyn Emyr i'r ysgol ramadeg.

GYRRU MISS MAISIE

Mae hi'n dechrau canlyn Emyr pan oedd hi yn y pumed dosbarth yn yr ysgol. Pictiwrs Pwllheli - y Palladium - ar nos Sadwrn a'r seti dwbwl yr oedd yna gymaint o gystadlu amdanyn nhw. Ac i hyrwyddo pethau yr oedd Emyr wedi prynu un o hen faniau'r Post. Gyrru Miss Maisie o gwmpas lonydd Llŷn, dyna oedd eu Sadyrnau nhw.
Wedyn Coleg y Santes Fair ym Mangor, coleg yr Eglwys yng Nghymru a Maisie yn hyfforddi i fod yn athrawes gynradd. *"Doeddwn i ddim isio bod yn ddim byd arall. Athrawes a dyna fo."*
Ac ar ôl y coleg ar ben yr allt fe gafodd hi swydd yn ysgol fach enwog Bryncroes ym Mhen Llŷn. Roedd hynny yn y dyddiau cyn i'r ysgol ddod yn rhan o benawdau'r newydddion: ***'Dim cau Ysgol Bryncroes!'*** a'r frwydr a fu yn ei hanes hi, a hanes sawl ysgol wledig fach yn y dyddiau hynny - a'n dyddiau dwys ninnau hefyd.
Roedd Emyr yn dilyn ei yrfa hefyd. Ar ôl coleg mae o'n mynd i wethio mewn pŵerdai cynhyrchu trydan, pŵerdai bychain yn aml, - yn Lloegr, yn ardaloedd y Cotswolds, yn Sir Derby - pŵerdai glo canolbarth a gogledd y wlad honno.

HIRAETH

Mae'r ddau yn priodi a Maisie yn dilyn Emyr - Stourport, Kidderminster, Burton on Trent - lle ganwyd eu dau blentyn Morwenna ac Alun. Ac yn Kidderminster, hiraeth ar Emyr am Gymru, *"a phoeni am iaith y plant pe byddem ni'n aros yn Lloegr"*.
Ac felly i'r Wylfa yng Ngogledd Môn, a phrynu tŷ ym Mhorthllechog, Emyr yn yr Atomfa, a Maisie yn ysgol Kingsland, Caergybi, y plant yn ysgol Cemaes ac Ysgol Syr Thomas Jones yn Amlwch. Gyda'r blynyddoedd, mi aiff Morwenna ac Alun i Brifysgol Aberystwyth tra bydd Maisie yn cael cyfnod diddorol o weithio efo Dr Gareth Roberts, Mathemategydd mwyn yr Awdurdod Addysg. Y mae hi, fel pawb arall, yn

canmol arweiniad Gareth, ac yn trysori'r cof am y cyfnod hwn o weithio efo fo. *"Mi ydw i'n cofio mynd i Ysgol Gymraeg Caergybi - Ysgol Morswyn, - a chyfarfod â bachgen bach eithriadol o alluog yn un o'r dosbarthiadau. Gareth Williams oedd ei enw fo."*

Dyma Gareth Williams, y mathemategydd llachar, y mae ei hanes trist yn parhau i fod yn destun galar i'w deulu, ac yn destun dirgelwch hyd y dydd heddiw. Mae hi'n amlwg bod hanes Gareth wedi gadael ei ôl ar Maisie ac Emyr - ac ar Gareth Roberts o ran hynny.

PANED GALLT Y FOEL

Mae'r cysgodion yn symud ar y mynyddoedd, lliwiau porffor a glas tywyll sydd yno bellach, mae'r pnawn yn dirwyn i ben. Ac mae Maisie'n dweud ei bod hi'n amser paned. Rydan ni'n cerdded trwy'r ystafell fwyta lle mae'r cloc mawr yn tician yn dawel a'r cypyrddau derw isel, y platiau a'r llestri Llugaeron, eu lliw coch yn sgleinio yn haul y machlud, ac i mewn i'r gegin. Y mae yma ragor o dystiolaeth o grefftwaith Emyr, o'r trawst anferth sy'n rhan o'r to at y cloeau bach pres sydd yn rhan o bob drws a'r goriad yn ffitio'n berffaith. Y mae hi'n amlwg bod yma dipyn o ehangu ar y gegin wreiddiol. Ond fe gadwyd y bocs uwchben y drws - bocs ag wyth o glychau ynddo fo - clychau yn canu pan oedd un o'r teulu yn pwyso botwm - yn yr ystafell fyw, y stydi ac yn y blaen. Cloch yn canu yn ôl y gofyn - adlais o ysblander swbwrbaidd Gallt y Foel. Ac wrth gwrs y mae pob cloch yn gweithio heddiw.

Mae Maisie yn gogyddes gampus a ninnau yn cael paned a theisennau bach eiddil mewn nyth o bapur. Tebot ar y bwrdd a'r te mewn cwpan a soseri perffaith. Mi ddaru Maisie ymddeol o adran addysg y Coleg Normal maes o law ac Emyr yntau, yn ymddeol yn gynnar o'r Wylfa.

Y fo ydi Trysorydd **Y Goriad**, mae o hefyd yn aelod o bwyllgor y Samariaid, ac yn un o'r rhai sydd yn gofalu am adeiladau Berea Newydd. Dilynwr mawr Everton, roedd Emyr wedi cael treial efo Wolverhampton Wanderers yn nyddiau Stan Cullis yn rheolwr Molineux. *"Ond doedd gen i ddim diddordeb mewn chwarae'n broffesiynol. Cyflog gwael iawn oedd cyflog chwaraewr yn y pumdegau."*

Yn ystod yr wythnos, mae Maisie yn helpu rhai o blant y Garnedd efo'u darllen, ac yn cefnogi yn Ysbyty Gwynedd hefyd. Mae'r wyresau a'r wyrion i gyd yn Ysgol Tryfan heblaw am y fenga sy'n dal yn y Garnedd

A dyna ni. Dwy awr a hanner o sgwrsio melys efo'r ddau sydd yn byw ar yr allt. A phaned a chwpan a soser.

SWYDDOG IEUENCTID NEWYDD

DELYTH WYN DAVIES

Helo blant

Rwy'n falch iawn fy mod yn cael y cyfle i fod gyda chi y tymor hwn. Rwyf wrth fy modd yn sôn am Iesu Grist wrth blant ac am rai blynyddoedd bûm yn gweithio yng Ngholeg y Bala yn trefnu gwersylloedd plant ac yn helpu'r rhai oedd yn rhedeg clybiau plant yn y capeli dros Gymru gyfan. Erbyn hyn rwy'n cael y cyfle i redeg clybiau plant ac ieuenctid yng nghylch Bangor.

Rwy'n byw yn Chwilog gyda fy ngŵr Aled a'm plant Gruffydd sy'n 14 oed a Llio sy'n 11 oed. Mae'r ddau yn mynd i Ysgol Glan y Môr Pwllheli, CIC Chwilog a Phencae, ac i Ysgol Sul Chwilog. Rwy'n hoffi ymlacio wrth fynd am dro neu ar y beic ac rwy'n mwynhau canu gyda Chôr Godre'r Eifl.

Edrychaf ymlaen at gael eich cwmni yn yr Ysgol Sul ac yn y CIC Bach ar nos Fawrth rhwng 6 -7 o'r gloch.

Hwyl, Delyth
delyth@gofalaethbangor.org

OS AM GYFRANNU I'R RHIFYN NESAF O ICHTHUS, YNA GALLWCH:

➽ EI ADAEL MEWN AMLEN YN BEREA NEWYDD
➽ EI YRRU I 4 GOLEUFRYN, PENRHOSGARNEDD LL57 2LY
➽ *neu* **GYRRWCH E-BOST AT** *gdeiniol@hotmail.com*
I GYRRAEDD ERBYN YR 8fed O IONAWR
OS GWELWCH YN DDA

WYTHNOS YN NODDFA

MARGED ELEN

Er mai am wythnos yn unig yr es ar brofiad gwaith i Eglwys Noddfa, Caernarfon, teimlaf fy mod wedi gweld gwir werth gwaith yr Eglwys o fewn y gymuned a'r ffordd mae'r ganolfan ynghyd â'r Eglwys yn rhan gwbl annatod o'r ardal.

Penderfynais ymchwilio i fynd ar brofiad gwaith yno ar ôl clywed gweithwraig plant a phobl ifanc yr Eglwys, Llinos Mai Morris yn siarad am ei gwaith yng Nghapel Berea Newydd, Bangor. Roedd brwdfrydedd Llinos yn amlwg ac roedd clywed am yr holl glybiau oedd yn bodoli yn y ganolfan wedi gwneud i mi eisiau dysgu mwy am yr Eglwys unigryw hon.

Cefais groeso cynnes iawn yno a phaneidiau lu! O'r diwrnod cyntaf, roedd fel petai pawb yn adnabod ei gilydd ac yn defnyddio llawer ar y ganolfan. Yr amrywiaeth o brofiadau a gefais a apeliodd ataf, yn enwedig y cyfle i weld gwaith Llinos a Mererid fel gwirfoddolwyr Cymorth Cristnogol yn ogystal â'u gwaith o fewn yr Eglwys. Gwelais hyn pan aethom i Ysgol Uwchradd Bodedern i wneud gweithdy ar Fasnach Deg a'r byd masnach.

Roedd hyn yn rhoi gwedd ryngwladol ar y profiad gwaith cymunedol yma. Uchafbwyntiau'r profiad gwaith i mi oedd y clybiau ieuenctid gan fy mod wedi gwirioni ar frwdfrydedd y plant. Profiad braf oedd sgwrsio gyda'r bechgyn yng Nghlwb CIC a'r genod yng Nghlwb TLWS a chlywed am eu presenoldeb rheolaidd yn yr Eglwys. Rwyf yn gobeithio cael dychwelyd i Noddfa i helpu gyda'r clybiau yn y dyfodol.

I mi, yr agwedd fwyaf ysbrydoledig am waith Llinos a Mererid yw mai'r ffydd Gristnogol ar waith sydd yma. Credaf fod yr Eglwys yn llwyddo

i addoli nid yn unig ar ddydd Sul, ond drwy gydol yr wythnos, drwy ymateb i anghenion cymuned a thrwy fod yn rhan mor amlwg ohoni, boed hynny drwy frwdfrydedd y plant yn y clybiau neu drwy fwrlwm sgwrsio'r oedolion yn y Te Bach misol. Mae'r profiad gwaith yma wedi rhoi gobaith i mi fod modd defnyddio ein ffydd drwy weithredoedd cymwynasgar, Cristnogol sydd wir yn gwneud gwahaniaeth sylweddol mewn cymuned.

Y GYMDEITHAS

WIL OWEN

Cyn-brifathro Ysgol y Garnedd a agorodd dymor newydd y Gymdeithas nos Iau Hydref 11. 'Bachgen bach o Felin-y-Wig' oedd testun William Lloyd Davies sy'n byw yng Nghaernarfon erbyn hyn.
Soniodd am ei fagwraeth ar fferm Tyddyn Fatw gan egluro ystyr y Fatw. Darlithydd iddo yn y Coleg Normal a ddywedodd mai 'yr atwf' – yr ail dwf – yw'r Fatw.
Yn ei ieuenctid daeth dan ddylanwad ei weinidog T. Alun Williams a nifer o saint y cylch, un ohonyn nhw yn ei ddysgu i weddïo o'r frest yn ifanc iawn.
Cyfeiriodd at laweroedd o arferion cefn gwlad a dywediadau sydd wedi hen ddiflannu. Aeth yn ôl i'w hen gartref rai blynyddoedd yn ôl gyda pherthnasau o America i gael eu cyfarch gan y perchennog newydd a'i 'basset hound' gyda'r geiriau 'Do we know you?'
Clodd ei sgwrs gydag englyn gan Dafydd Wyn Jones, Cwmlline:

Yn fy ôl yr af o hyd – i fawrhau
Hen fro wen fy mebyd
A chael ar ôl dychwelyd
Y ddoe gwyn yn g'lwydda'i gyd

Mae'r Gymdeithas yn cyfarfod bob mis am 7.00 o'r gloch.
Noson Nadoligaidd a geir ar Ragfyr 13 gan Barti Bara Brith.

DOSBARTH OEDOLION YR YSGOL SUL

ELWYN LLOYD JONES

Fe ddaeth cyfnod i ben yn hanes dosbarth Ysgol Sul yr oedolion ym Merea Newydd gydag ymddeoliad yr athro y Dr Dafydd Wynn Parry a dechrau ar gyfnod newydd pan gydsyniodd Mr Maldwyn Thomas â chais yr aelodau i ymgymryd â'r arweinyddiaeth.
Daeth y dosbarth i fod yn y Twrgwyn rai blynyddoedd yn ôl. Yn ei Ragair i'w lyfr "Crefydd a Gwyddor" mae'r Dr Parry yn dweud. "Yn y pedwar a'r pumdegau, cefais y fraint o fod ymysg cryn bymtheg neu fwy o efrydwyr mewn dosbarth Ysgol Sul yn y Twrgwyn - llawer ohonynt wedi dychwelyd o'r lluoedd arfog". Ei athro yn y coleg a phennaeth yr adran yr oedd yn gweithio ynddi y diweddar Athro R Alun Roberts a blaenor yn Y Twrgwyn ofynnodd iddo ymgymryd â'r dosbarth. Gwelodd efrydwyr Bangor yn cilio o'r eglwys a chapel yn y chwedegau a'r saithdegau a'r adeg hynny y bu i rai o oedolion Y Twrgwyn ymuno â'r dosbarth oherwydd i'w hathro, y diweddar Athro Alun Llywelyn Williams orfod roi'r gorau i'r dosbarth oherwydd ei iechyd. Yn ddiddorol iawn fe fu i un o'r efrydwyr hynny a fynychai y dosbarth yn Y Twrgwyn pan yn y coleg ym Mangor, sef y diweddar Gwilym Humphreys, ddod yn aelod o ddosbarth yr oedolion ym Merea Newydd ymhen blynyddoedd.

Derbyniodd Dr Parry Fedal Gee am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul ac fe deimlodd ei bod yn anrhydedd o'r mwyaf derbyn y fedal. Mae'n sicr fod y cyfnod maith y bu Dr Parry yn athro dosbarth Ysgol Sul yn dipyn o record. Fe anrhydeddwyd aelodau eraill o'r dosbarth gyda Medal Gee yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cafodd y Dr Parry ddoethuriaeth uwch gan ei Brifysgol am nifer fawr o ysgrifau gwyddonol a gyhoeddodd ym maes Botaneg Amaethyddol ar wella porfa anifeiliaid - oddeutu hanner cant ohonynt i gyd. Yng nghanol ei brysurdeb byddai yn ymchwilio i rai o egwyddorion mwyaf dyrys ffydd a chred. Detholiad o'r myfyrdodau hyn a gyhoeddwyd yn 'Y Traethodydd',

‘Cristion’, ‘Y Goleuad’ a’r ‘Gwyddonydd’ a geir yn ei lyfr ‘Crefydd a Gwyddor’.

Teimlaf na allaf ddod â’r hanes hwn i ben heb gyfeirio at gyfraniad arbennig Miss Menai Williams i’r dosbarth. Tua chanol bob haf byddai Menai yn trefnu taith i fannau â chysylltiadau Cristnogol, cartrefi emynwyr, capeli ac eglwysi. Cafwyd taith i Bantycelyn a’r ardal, a chapel coffa William Williams yn Llanymddyfri er na lwyddwyd i fynd i mewn iddo am ei fod dan glo. Dro arall cawsom groeso tywysogaidd arbennig gan deulu Dolwar Fach oherwydd cysylltiadau Menai â hwy. Cawsom ymweld â chapel coffa Ann Griffiths yn Nolannog a’i bedd ym mynwent yr eglwys a chapel coffa John Hughes, Pontrobert. Engreifftiau yw’r rhain o’r teithiau gafwyd bob blwyddyn tros gyfnod o ddeuddeng mlynedd a’r cyfan ohonynt wedi eu trefnu ymhob manylder gan Menai. Byddai wedi trefnu gyda phobl i’n harwain ac i olrhain hanes y mannau hynny, wedi dewis llenyddiaeth i aelodau’r dosbarth i’w darllen mewn gwasanaeth byr yn y lleoedd cysygredig hynny, heb anghofio trefnu man i ni gael bwyd, ac yn fwy na dim, byddai wedi bod yn y mannau hynny ymlaen llaw yn braenaru’r tir o’n blaen. O flwyddyn i flwyddyn byddai aelodau’r dosbarth yn disgwyl yn eiddgar i gael clywed Menai yn gofyn pa ddyddiad fyddai’n hwylus i fynd i ymweld â’r lle a’r lle. Nid yw gofod yn caniatáu i mi ymhelaethu ymhellach ar y teithiau a gafwyd. Derbyniwch eich dau ddiolch diffuant weddill y dosbarth.

Mae croeso cynnes yn aros unrhyw un a garai ymuno â’r dosbarth yn ystafell 5 wedi oedfa’r bore ar y Sul.

ER COF AM MR GWILYM HUMPHREYS

ALUN O FÔN

Yn wir gadarn gredadun, ei Arglwydd,
Drosglwyddodd i’w gyd-ddyn.
Cu y bu, i ni bob un.
Hyn waith, sydd yn ei ddilyn.

Y GORNEL WEDDI

MEIRA JONES

DIOLCHGARWCH FY MHLENTYNDOD
TRI LLE : UN DIOLCH

Ar gais ein gweinidog yr wyf yn edrych yn ôl ar Ddydd Diolchgarwch fy mhlentyndod yng Nghapel Holloway, Llundain ym mhedwar a phum degau'r hen ganrif. Gan fod yr aelodau'n byw dros ardal mor wasgaredig, un gwasanaeth diolchgarwch a gynhelid ar y Sul, hyd y cofiaf, er fod seiat arbennig yn cael ei chynnal yn ystod yr wythnos.

Mewn dinas, cyfyng iawn oedd y dewis o lysiau a ffrwythau a dyfid gan yr aelodau. Yr hyn a gofiaf yw'r amrywiaeth mawr o nwyddau megis te a siwgr, tuniau o gig, pysgod a ffrwythau a brynid. Rhaid cofio na ddaeth y tocynnau dogni bwyd i ben tan tua 1952 felly cyfnod o brinder cyffredinol oedd hi. Ar ôl y gwasanaeth, dosberthid yr holl nwyddau i'r Cymry Cymraeg oedrannus neu fethedig gan aelodau a drigai'n agos atynt.

A hithau'n gyfnod rhyfel, treuliais i bum mlynedd yn byw gyda theulu fy mam ar aelwyd fferm ym mherfedd gwlad sir Aberteifi. Wedi i'r rhyfel ddod i ben, daliwn i dreulio pob mis Awst yn y wlad. Undodwyr oedd Wncwl ac Anti a'u teulu i gyd a'r hyn a gofiaf am ddathlu diolchgarwch yn yr hen gapel bach oedd llawnder o lysiau a ffrwythau, o gynnyrch llafur o'r caeau a menyn cartref bendigedig. Yr oedd y cefndir gwledig yn go wahanol i Holloway ddinesig a'r capel wedi'i addurno'n wahanol ond yr un oedd y diolch a'r dathlu. Yr un Duw a gydnabyddid.

Sylweddolais yn ifanc fod angen diolch bob amser ac mai da ydoedd cael amser penodol i oedi a chyfrif ein bendithion a diolch i'r Arglwydd amdanynt.

(Yn dilyn ceir detholiad o Salm 145. Dyma'r weddi.)

DETHOLIAD O ADNOD O SALM 145

Dyrchafaf di, fy Nuw, O Frenin, a bendithiaf dy enw byth bythoedd.
Bob dydd bendithiaf di, a moliannu dy enw byth bythoedd. Mawr yw'r Arglwydd, a theilwng iawn o fawl, ac y mae ei fawredd yn anchwiliadwy.
Graslon a thrugarog yw'r Arglwydd, araf i ddigio, a llawn ffyddlondeb.
Y mae'r Arglwydd yn dda wrth bawb, ac y mae ei drugaredd tuag at ei holl waith.
Y mae'r Arglwydd yn agos at bawb sy'n galw arno, at bawb sy'n galw arno mewn gwirionedd. Gofala'r Arglwydd am bawb sy'n ei garu. Llefara fy ngenau foliant yr Arglwydd, a bydd pob creadur yn bendithio'i enw sanctaidd byth bythoedd.

LAWNSIO GWEFAN NEWYDD

Cofiwch droi at www.henaduriaetharfon.org

Mr John Wynn Jones a Mr William Lloyd Davies yn pori'r wefan newydd

OFERGOELIAETH YR OES O'R BLAEN

BRUCE GRIFFITHS

Nid peth newydd yw mynd at ddewin neu ddewines i gael dweud eich ffortiwn – gan amlaf trwy ddewis cardiau, neu ddarllen dail te mewn cwpan. Bellach, fel hwyl y gwneir hyn gan amlaf, er enghraifft mewn ffair. Peth gwahanol braidd yw ceisio cysylltu ag ysbrydion, gan fynd at 'gyfrwng' i glywed eu lleisiau. Tueddir i ystyried hyn fel peth diweddar iawn, a gychwynnodd yn 1847-8, yn Hydeville, yn nhalaith Efrog Newydd, cyn dod i'r wlad hon. Ond roedd ambell 'gyfrwng' wrthi yma yng Nghymru ymhell cyn hynny. Yng nghofiant John Roberts Llangwm, fel y'i gelwid, adroddir hyn am drigolion Dyffryn Nantlle, yn y cyfnod cyn 1822:

Ar hyd yr wythnos gweithient i lawr yn y lefelydd tywyll digalon, ond yn ystod y Sul caent dipyn o oleuni ac ysgafnder a hwyl. Yn ystod yr haf casglent at ei gilydd i gyntedd eang oedd wrth ymyl y Plas i chwarae'r bêl-law, ac aml gamp arall. Câi'r hen bobl lawer o bleser wrth wylio'r rhai ieuanc yn chwarae, a theimlent ddiddordeb mawr ynddynt gan mai hwy a fu yn eu dysgu. Ar ôl y chwarae casglent at ei gilydd i adrodd hen straeon am fwganod, ysbrydion, a'r tylwyth teg, a dringai rhai ohonynt y llethr i Fynydd Llanllyfni i weled Martha'r Mynydd yn dal cymundeb â'r 'anweledigion'. Ar ôl diffoddi'r goleuni llwyddai Martha weithiau i gael un o'r 'anweledigion', o'r enw Mr Ingram, i bregethu iddynt (yn Gymraeg, mae'n debyg), ac yn ei thro deuai Miss Ingram i'w hannerch. Aeth hyn ymlaen nes y llosgodd Martha ei throed trwy ryw anffawd, a'r tro cyntaf y daeth Miss Ingram i'w hannerch wedyn daliodd Guto-wir-gast ar y cyfleustra i sathru ei throed. Dywedir na bu llawer o lewyrch ar bregethu'r 'anweledigion' wedi hynny.

Hanesyn hynod, ynte! Mae'r proffwyd Eseia'n addo trallod blin ar yr 'eilunaddolwyr' sy'n eich cynghori gan ddweud 'Ymofynnwch â'r swynyddion, ac â'r dewiniaid, y rhai sydd yn hustyng (= sisial), ac yn sibrwd: onid â'u Duw yr ymofyn pobl? Dros y byw at y meirw?' Mae'n rhagweld **'A hwy a edrychant ar y ddaear; ac wele, drallod a thywyllwch, niwl cyfyngder: a byddant wedi eu gwthio i dywyllwch'.** Dyna rybudd ichi! *(Codwyd hyn o Hynafiaethau, Cofiannau a Hanes Presennol Nant Nantlle, 1871, tud.60.)*

CYLCH Y CHWIORYDD

ELIZABETH EVANS

SWYDDOGION:
Elizabeth Evans - Ysgrifennydd
Astra Thomas - Trysorydd

Bydd y tymor newydd yn cychwyn ***Ddydd Llun, Hydref yr 22ain am 2 o'r gloch*** gyda Chyfarfod Gweddi Diolchgarwch.

Yna :
Tachwedd y 7fed am 2 o'r gloch: Sgwrs gan aelod o'r Samariaid
Rhagfyr 13eg am 7 o'r gloch: Uno gyda'r Gymdeithas yng nghwmni Bara Brith

Mae croeso cynnes yn y Cylch. Gobeithio y cawn weld wynebau newydd y tymor yma. Mae'n braf cael cymdeithasu a mwynhau sgwrs a phaned.

Bydd rhaglen gyflawn 2012 -2013 ar gael yn fuan.

CORNEL CODI GWÊN

GLYN LLOYD JONES

Mae'n bwysig darllen dros eich gwaith ! (Cri aml i athro ar hyd a lled y wlad dwi'n siwr)
Gwelwyd y geiriau canlynol ar garreg fedd yng Nghaeredin:

'Codwyd er cof am John MacFarlane.
Fe'i boddwyd yn nyfroedd Leith
gan ychydig o'i gyfeillion agos.'

Buasai un atalnod llawn ac un brif lythyren wedi gwneud y fath wahaniaeth.
Gobeithio nad oedd gan yr ymadawedig druan lawer o elynion - doedd o mo'u hangen gyda chyfeillion agos fel y rhain!!

SEIAT ICHTHUS

ALWYN ROBERTS

Cwestiwn y Seiat gan Dr Meirion a Manon Davies

Mae India yn wlad sy'n datblygu'n gyflym. Ei heconomi hi yw'r bedwaredd fwyaf yn y byd ac mae ymhlith y rhai sy'n tyfu gyflymaf. Mae'r wlad yn gwario bron i £50 biliwn ar ei lluoedd arfog, gan gynnwys arfau niwclear ac awyrennau rhyfel. Eto i gyd, mae'r Deyrnas Unedig yn rhoi £293 miliwn mewn cymorth iddi yn flynyddol. A ellir cyfiawnhau hyn?

Mae ystadegau yn bethau diddorol - a pheryglus! Wna'i ddim dadlau â Meirion a Manon ynglŷn â maint economi'r India. Y mesur uchaf y gallaf fi ei ganfod ar y we yw mai'r nawfed economi fwyaf yw hi. Ond gan fod ei thwf economaidd yn llawer uwch na'r rhai sydd yn uwch ar y rhestr, hawdd y gall fod yn bedwaredd yn y dyfodol agos.

Sail y rhestrau hyn yw Cyfanswm y Cynnyrch Cenedlaethol, y *Gross Domestic Product* - sef beth yw maint cacen economaidd gwlad. Ond er mwyn penderfynu cyfoeth neu dlodi trigolion gwlad rhaid holi cwestiwn arall sef, faint o bobl sy'n gorfod rhannu'r gacen? Ac y mae'r ateb i'r cwestiwn hwnnw yn gosod India nid yn bedwerydd na hyd yn oed yn nawfed ond yn safle 125 allan o 180 (ffigurau Banc y Byd) neu'n safle 129 allan o 183 (ffigurau'r IMF). Felly, er bod India yn uchel yn ôl maint y cynnyrch cenedlaethol y mae'n disgyn yn llawer is yn ôl yr hyn sydd ar gael i bob unigolyn - a hynny wrth gwrs yw gwir fesur tlodi.

Mae ystyriaethau tebyg ynglŷn â gwariant ar arfau. Yn ôl ystadegau'r *Stockholm International Peace Research Institution* y mae Prydain ac India yn treulio fwy neu lai yr un gyfran o'u Cynnyrch Cenedlaethol ar wariant milwrol, 2.6% a 2.5%, a'r symiau yn $62.7 biliwn yn achos Prydain a $46.8 biliwn yn achos India. Ond o rannu yn ôl poblogaeth mae Prydain yn gwario $893 y pen ac India $33!
Ond beth yw goblygiadau hyn i gymorth rhyngwladol? Yn amlwg, nid

India yw gwlad dlotaf y byd - y mae o leiaf hanner cant yn dlotach a'r rhan fwyaf yn Affrica. Ond y mae ystyriaethau eraill - gallu gwlad i ddefnyddio cymorth yn effeithiol a chysylltiadau hanesyddol yn eu plith.

Yr oedd y ddeubeth yma yn bwysig yn ymdrech ddiweddar ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru i gynorthwyo Tŷ Cariad ym Mryniau Mizo yn India. Y mae galw wedi bod yn India ei hun am roi diwedd ar gymorth rhyngwladol ar sail angen. Digon teg - ond gobeithio y bydd ambell i rodd i fynegi brawdgarwch yn parhau!



SALM AC EMYN

TACHWEDD 11

Salm 100 Ela Vaughan Roberts 115 Llion Eurgain Williams

TACHWEDD 18

Salm 121 Gwen Alaw Roberts 122 Rhys Roberts

TACHWEDD 25

Salm 150 Alys McCann 139 Ifan Siôn

IONAWR 13

Salm 23 Dewi Walker Jones 148 Catrin Lois Edwards

IONAWR 20

Salm 8 Gwion Siôn 373 Eleri Roberts

IONAWR 27

Salm 1 Iolo Evans Jones 681 Meilyr Lynch

MASNACH DEG

Cofiwch bob amser ein bod wedi cytuno fel eglwys i ymrwymo i Fasnach Deg, felly cofiwn ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg, megis coffi, siwgr a bisgedi, yn ein holl gyfarfodydd.

Y BUGEILIAID - O'R MAES

ANN CORKETT

Ers imi ysgrifennu ddiwethaf, cynhaliwyd gwasanaeth cofiadwy yng Nghapel Penuel ym mis Mehefin i gomisiynu pedwar gwirfoddolwr newydd i ymuno â'r Bugeiliaid. Erbyn hyn, maen nhw wedi ennill cryn dipyn o brofiad ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr. Maen nhw'n lleihau'r baich ar aelodau gwreiddiol y tîm ac yn ei gwneud yn haws i ymateb pan ofynnir i ni drefnu patrôl ychwanegol fel pan ofynnodd yr heddlu i ni drefnu patrôl ychwanegol yn Llanberis ar ôl Ras yr Wyddfa ym mis Gorffennaf. Cafwyd helynt mawr mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf ar ôl y Ras ond roedd popeth yn iawn eleni. Yn sicr, mae'r heddlu yn gwerthfawrogi gwaith y Bugeiliaid - dywedodd yr Arolygydd hynny wrth Gynghorwyr Dinas Bangor yn ddiweddar ac mae'r heddlu hefyd wedi rhoi cymorth ariannol eto eleni. Mae'r gwaith yn prysuro wrth i'r myfyrwyr ddychwelyd a bu'r Bugeiliaid allan ar dair noson yn ystod Wythnos y Glas.

Erbyn ichi dderbyn *Ichthus*, byddwn wedi cynnal bore coffi ym Mhenuel i godi arian, ac i ddweud wrth bobl am y gwaith. Tybed a all Berea drefnu rhywbeth yn nes ymlaen?

Soniodd Mr William Lloyd Davies, yn y Gymdeithas, am y modd yr hyfforddwyd pobl ifainc ei gapel gartref i weddïo o'r frest. Broliodd y medrai sawl un roi gweddi pe fethai gweinidog gadw ei gyhoeddiad, a heriodd aelodau Berea a allent ddweud yr un peth. Ai'r ofn hwnnw sy'n rhwystro pobl rhag ymuno â'r Bugeiliaid Gweddi, sy'n aros ym Mhenuel i weddïo dros y Bugeiliaid ac i wneud swper ar gyfer eu hegwyl am 12.30 a.m. Nid oes rhaid medru gweddïo'n gyhoeddus. Gwell gan nifer gychwyn trwy weddïo'n dawel yn null y Crynwyr, ond mae'n addysg ac yn fendith gwrando ar y rhai sy'n medru rhoi eu teimladau a'u deisyfiadau mewn geiriau. Croeso ichi ddod am noson - a gallaf roi lifft ichi ar fy noson innau.

Os na allwch ddod i Gapel Penuel ac aros ar eich traed mor hwyr, medrwch helpu trwy gofio'r Bugeiliaid yn eich gweddi. I'r rhai ag e-bost, cynhyrchir Dyddiadur Gweddi bob pythefnos gyda'r hanes diweddaraf a phwyntiau i'w cofio yn ein gweddïau. Os hoffech ei dderbyn, anfonwch neges at bangor@streetpastors.org.uk.

Gallwch chi gefnogi'r Bugeiliaid yn ariannol hefyd, trwy rodd unigol neu gyfraniadau cyson, ac mae ffurflenni Rhodd Cymorth i'w cael. Anfonwch neges neu cysylltwch â mi am fanylion.

Y DIGWYDDIADUR

HYDREF	
11eg am 7.00	Y Gymdeithas - William Lloyd Davies
	YR ŴYL DDIOLCHGARWCH
21ain am 10.00	Diolchgarwch y Plant
am 5.30	Diolch i Aled Ifan
22ain am 2.00	Cyfarfod Gweddi y Chwiorydd
am 7.00	Cyfarfod Gweddi y Brodyr
23ain am 6.30	Yr Henaduraeth - Ordeinio Blaenoriaid
TACHWEDD	
7fed am 2.00	Cylch y Chwiorydd - Y Samariaid
8fed am 7.00	Y Gymdeithas: Darlith gan Yr Athro Deri Thomas
	A OES BYWYD YN Y BYDYSAWD?
15fed am 7.00	Seiat - Ewch yn ei enw Ef -
	YR HER I OFALU - Cynthia Owen
22ain am 7.00	Seiat - DAL I GREDU - R Maldwyn Thomas
29ain am 7.00	Seiat - ANSICRWYDD? Parchedig Dr Alwyn Robers
RHAGFYR	
6ed am 7.00	Seiat Ewch yn ei enw Ef -
	MODELAU O OFAL BUGEILIOL
	Delyth Oswy Shaw
13eg am 7.00	Y Gymdeithas - Noson Nadoligaidd gan Bara Brith
	(Y Chwiorydd yn ymuno)
17fed am 6.30	Gwasanaeth Nadolig Ysbyty Gwynedd
25ain	Y Blygain fach - **am 8:30** - Gweinidog
IONAWR	
9fed am 7.00	Cyfarfod Gweddi Dechrau'r flwyddyn
10fed am 7.00	Cyfarfod Gweddi Dechrau'r flwyddyn
17fed am 7.00	Y Gymdeithas - MI WELAIS I
	Gwyn Lloyd Jones/Gwawr Jones/Manon Ogwen Williams
18fed hyd 25ain	Wythnos weddi am undod - Cytûn
29ain	Seiat: Ewch yn ei enw Ef -
	YMWELD Â RHAI SY'N DDIFRIFOL WAEL
	Manon Ogwen Williams

PRIODASAU MIS AWST

Non Llewelyn a Gethin Davies

Siwan Menai Jones a
Dylan Wyn Davies

Derbyniwyd Sara, Menna (a bedyddiwyd), Anna, Glesni a Gwion